OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1905 (Cy. 277)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2015

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi Atodlen 4 newydd (Ffigurau Poblogaeth Oedolion) yn lle'r un bresennol.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1905 (Cy. 277)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Tachwedd 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *30 Tachwedd 2015* |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 60 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi(**1**).

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2015 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 1992" ("*the 1992 Regulations*") yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**2**).

(**1**) 1988 c. 41. Diwygiwyd adran 60 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p. 41), a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi, gan adran 5 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17) a Rhan I o Atodlen 3 iddi.

(**2**) O.S. 1992/3238 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy. 47), 2000/3382 (Cy. 220), 2001/3910 (Cy. 322), 2002/3054 (Cy. 289), 2003/3211 (Cy. 304), 2004/3232 (Cy. 280), 2005/3345 (Cy. 259), 2006/3347 (Cy. 307), 2007/3343 (Cy. 295), 2008/2929 (Cy. 258), 2009/3147 (Cy. 274), 2010/2889 (Cy. 239), 2011/2610 (Cy. 283), 2012/3036 (Cy. 310), 2013/3046 (Cy. 305) a 2014/3193 (Cy. 323).

**Diwygio Rheoliadau 1992**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau 1992 wedi eu diwygio fel a ganlyn mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2016 neu ar ôl hynny.

(2) Yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 rhodder yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru
11 Tachwedd 2015

# YR ATODLEN

Rheoliad 2

# "SCHEDULE 4

**ADULT POPULATION FIGURES**

| *Billing authority area* | *Prescribed figure* |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 55,722 |
| Bridgend | 112,178 |
| Caerphilly | 141,099 |
| Cardiff | 281,207 |
| Carmarthenshire | 147,829 |
| Ceredigion | 62,875 |
| Conwy | 94,564 |
| Denbighshire | 75,337 |
| Flintshire | 121,644 |
| Gwynedd | 98,583 |
| Isle of Anglesey | 56,533 |
| Merthyr Tydfil | 46,587 |
| Monmouthshire | 74,234 |
| Neath Port Talbot | 112,590 |
| Newport | 113,566 |
| Pembrokeshire | 99,000 |
| Powys | 107,516 |
| Rhondda Cynon Taf | 186,911 |
| Swansea | 194,267 |
| Torfaen | 72,248 |
| Vale of Glamorgan | 100,662 |
| Wrexham | 107,275" |